# Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir
# 17 Mawrth 2025

## SL(6)593 – Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) (Diwygio) 2025

### Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac maent yn diwygio Rheoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015 ("y prif Reoliadau").

Mae'r diwygiadau'n gwneud newidiadau i reoliad 19 o'r prif Reoliadau (sefydlu a chynnal cronfeydd cyfun) i alluogi cyrff partneriaeth i arfer mwy o hyblygrwydd yn y ffordd y maent yn cyfuno cronfeydd wrth arfer eu swyddogaethau mewn perthynas â llety cartref gofal i bobl hŷn.

Bydd yn ofynnol o hyd i gyrff partneriaeth gynnal a chyfuno cronfeydd wrth arfer y swyddogaethau hyn, ond ni fydd yn ofynnol mwyach iddynt wneud hynny ar sail ranbarthol (o dan drefniadau gyda'r holl gyrff partneriaeth eraill ar gyfer ardal y bwrdd partneriaeth rhanbarthol).

**Rhiant-Ddeddf:** Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

**Fe'u gwnaed ar:**

**Fe'u gosodwyd ar:**

**Yn dod i rym ar:** 31 Mawrth 2025